**LC1130**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

Mae'r Gorchymyn yma yn dod â gweddill darpariaethau Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") i rym. Mae’r darpariaethau hyn yn sefydlu system o gynlluniau datblygu lleol yn lle’r cynlluniau datblygu unedol sy’n ofynnol ar hyn o bryd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd trefniadau trosiannol yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol penodol barhau i baratoi eu cynlluniau datblygu unedol hyd nes i ragor o orchmynion gael eu gwneud.

Mae’r Gorchymyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2004 ac yn rhoi diwedd ar y trefniadau trosiannol a wnaed o dan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol (Cymru) 2005 (OS 2005/1229 (Cy.87)).

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi cael cyfle i ystyried drafftiau cynharach o’r Gorchymyn yma. Oherwydd hynny, mae pwyntiau adrodd posibl wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol a does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

## Sylwadau

Mae’r Cynulliad wedi defnyddio pwerau sydd ar gael iddo o dan adran 123(3)(b) o Ddeddf 2004 i wneud diwygiadau i Atodlen 13 o Ddeddf 2004 sy’n codi o ganlyniad i ddiddymu amryw o ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae pwerau’r Cynulliad i gychwyn darpariaethau Deddf 2004 wedi’u cyfyngu i gychwyn Rhan 6 ohoni; dydy’r pwerau hyn ddim yn cynnwys cychwyn darpariaethau eraill sy’n dod â darpariaethau diwygio neu ddarpariaethau diddymu i rym hyd yn oed os yw’r diwygio neu’r diddymu yn atodol i Ran 6. Oherwydd hynny, bu’n rhaid sicrhau cymorth Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog i wneud gorchymyn cychwyn ar wahân er mwyn dod â’r diddymiad i rym.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Medi 2005